# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 1**

ETHOLIADAU

*Systemau pleidleisio ar gyfer etholiadau i brif gynghorau*

**5 Dwy system bleidleisio**

(1) Mae dwy system ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor pan gynhelir pleidleisiau mewn etholiadau a ymleddir—

(a) system mwyafrif syml, a

(b) system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

(2) Gweler y rheolau etholiadau lleol am ddarpariaeth ynglŷn â sut y mae’r naill system a’r llall yn gweithio.

(3) Gweler adrannau 7 i 9 am ddarpariaeth ynglŷn â pha system sy’n gymwys i gyngor a sut y caiff y system sy’n gymwys i gyngor ei newid.

(4) Yn y Rhan hon, ystyr “rheolau etholiadau lleol” yw—

(a) rheolau a wneir o dan adran 36A o Ddeddf 1983 (a fewnosodir gan adran 13(3));

(b) rheolau a wneir o dan adran 36 o Ddeddf 1983 sy’n cael effaith yn rhinwedd adran 13(4).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 mewn grym ar 6.5.2022, gweler **a. 175(6)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 5.